# Proffil Swydd ar gyfer Ymgynghorydd Dyngarwch Graddfa 5

National Trust

**Ardal Sefydliadol**

Ymgynghori

## Byddwch yn gyfrifol am:

Byddwch yn gyfrifol am greu incwm sy'n deillio o Roddwyr Sylweddol ac Ymddiriedolaethau Elusennol, rheoli eich portffolio eich hun a dod o hyd i gefnogwyr newydd yn eich rhanbarth, yn ogystal â chynnig cyngor arbenigol i gefnogi cynlluniau codi arian rhanbarthol lle fo'n briodol, a hwyluso prif gysylltiadau drwy randdeiliaid mewnol eraill. Byddwch yn cynnal eich gwybodaeth drylwyr am yr amgylchedd ariannu allanol, yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i gyfoethogi cefnogaeth, denu sylw rhoddwyr newydd at ein gwaith a'u hysbrydoli nhw i gyfrannu. Byddwch yn meithrin cysylltiadau yn bennaf drwy wneud cyswllt wyneb yn wyneb, llunio cynigion ysgrifenedig enghreifftiol ac adroddiadau effaith, ac ymateb i anghenion unigol rhoddwr. Byddwch yn cwrdd â chefnogwyr ac yn mynd â nhw i'n lleoedd arbennig er mwyn iddynt ddeall ein hachos. Byddwch yn flaenllaw o ran codi arian o fewn y sefydliad ac yn cynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth arbenigol.

## Beth fyddwch chi'n ei ddarparu

Mae'n **Rheoli Portffolio**

Byddwch yn rheoli portffolio o roddwyr sylweddol rhanbarthol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol i greu incwm ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Byddwch yn canolbwyntio ar yr unigolion hynny sydd â'r gallu i wneud cyfraniadau pum, chwe a saith ffigwr, a sicrhau bod dulliau prydlon a strategol yn cael eu dilyn i greu mwy o incwm.

Mae'n **Cyflawni targedau**

Cyflawni targedau personol, targedau ariannol cyfunol, a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol ac anariannol, gan gefnogi gwaith craidd yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ogystal â llu o brosiectau y cytunwyd arnynt. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Dyngarwch cenedlaethol yn ogystal â'r Tîm Rheoli Rhanbarthol i osod targedau incwm ar gyfer eich portffolio, llunio adroddiadau ar gynnydd a sicrhau bod dull cyson yn cael ei gynnal i reoli cysylltiadau ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae'n **Ysbrydoli ein cefnogwyr**

Cydweithio gyda thimau eiddo, rhanbarthol a chanolog i lunio cynigion enghreifftiol ac adroddiadau effaith sy'n ymateb i anghenion unigol rhoddwr, ac sy'n dangos yr angen am gymorth allanol yn glir.

Mae'n **Cydweithio**

Gweithio gydag uwch aelodau o staff ac eiriolwyr allanol i ddatblygu cysylltiadau. Bydd hyn yn cynnwys llunio cynlluniau datblygu ac arwain, sesiynau briffio ar gyfer cyfarfodydd, gwybodaeth ynghylch prosiect a gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig.

Mae'n **Creu cysylltiadau newydd**

Ymwneud yn rhagweithiol â darpar gefnogwyr i'w hysbrydoli nhw i gefnogi ein gwaith, a datblygu cysylltiadau cryf drwy ddulliau datblygu ac arwain effeithiol. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r tîm ymchwil i ragolygon i ddod o hyd i gefnogaeth newydd a chreu cynlluniau datblygu ac arwain clir i wella nifer y cysylltiadau dyngarol yn eich rhanbarth.

Mae'n **Sylw at fanylion**

Cadw cofnodion yn wych ac yn rheoli gwybodaeth yn gydsyniol er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion o ran adrodd yn cael eu cyflawni, a'n bod ni'n gallu defnyddio data i dargedu ein dulliau yn well.

## Ein gwerthoedd (sut fyddwch chi'n cyflawni)

### Caru pobl a lleoedd

**Mae pobl a lleoedd angen ei gilydd er mwyn ffynnu. Rydym yn gofalu am natur, prydferthwch a hanes i bawb, am byth.**

**Mae lleoedd a natur yn bwysig i ni, er lles pobl. Rydym yn ysbrydoli pobl drwy ein gwybodaeth, brwdfrydedd a'n gweithredoedd. Rydym yn cydweithio i ddod â lleoedd yn fyw**
**ar gyfer pobl. Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth lleoedd a'r bobl sy'n cysylltu â nhw.**

### Croesawu pawb

**Rydym yma ar gyfer pawb. Rydym yn chwarae rhan gadarnhaol yn lleol ac yn genedlaethol, yn cysylltu ac yn ysbrydoli pobl.**

**Rydym yn ystyriol ac yn dangos parch. Rydym yn chwilfrydig ac yn dysgu gan eraill. Rydym yn cydweithio, gan roi ystyriaeth ragweithiol i wahanol safbwyntiau. Rydym yn groesawgar ac yn gwerthfawrogi gwahaniaeth.**

### Am nawr ac am byth

**Helpwch i greu gwaddol ar gyfer y dyfodol drwy werthfawrogi'r hyn sydd gennym, croesawu newid a symud ymlaen.**

**Rydym yn parchu'r gorffennol ac yn dysgu ganddo, gan ei ystyried wrth wneud penderfyniadau heddiw. Rydym yn croesawu newid ac yn meddwl yn greadigol fel ein bod yn berthnasol bob amser. Rydym yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gynaliadwy, gan osgoi gwastraff. Rydym yn ystyried yr effaith a gaiff popeth a wnawn ar bobl, y blaned a'n hiechyd ariannol.**

### Gwneud i bethau ddigwydd

**Rydym yn symud ymlaen gyda phwrpas a ffocws, gan geisio symleiddio a gwella yn barhaus.**

**Rydym yn gweithredu'n effeithlon ac yn cadw pethau'n syml. Rydym yn darparu gwasanaeth ac ansawdd gwych. Rydym yn blaenoriaethu'n effeithiol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros ein gweithredoedd. Rydym yn arwain pan ddylem, ac yn cefnogi pan allwn.**

# Proffil Swydd ar gyfer Ymgynghorydd Dyngarwch Graddfa 5

Ardal Sefydliadol: Ymgynghori

## Graddfa a chwmpas y swydd

Yn atebol i: Rheolwr Ymgynghori

Cyfrifoldeb ariannol:

Bydd gan y rôl hon darged incwm

Rheolaeth llinell:

Amherthnasol

Maes effaith:

O fewn y rôl, rheolir portffolio rhanbarthol o gysylltiadau dyngarol. Cyfrifol am gynyddu incwm drwy weithgaredd codi arian uniongyrchol gyda rhoddwyr sylweddol, ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Natur yr effaith:

Mae'r rôl hon yn allweddol o ran cynyddu incwm a wneir drwy godi arian a chefnogi gwaith craidd ar draws yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â blaenoriaethau codi arian y cytunwyd arnynt yn y rhanbarthau. O fewn y rôl, cefnogir y gwaith o gyflawni amcanion rhanbarthol wrth weithredu o fewn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Cysylltiadau Mewnol/Allanol:

Rheoli llu o gysylltiadau dyngarol yn allanol.
Yn fewnol drwy gysylltiadau gyda'r Tîm Rheoli Rhanbarthol, y Bwrdd Cynghori Rhanbarthol, codi arian gyda'r Ymddiriedolaeth Gyfan (canolog) a Thimau Partneriaethau Corfforaethol, Rheolwr Cyffredinol a staff eiddo, Rheolwr Ymgynghori, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gweithrediadau ac Ymgynghori ac ymgynghorwyr ar draws disgyblaethau gwahanol.

Awdur: Laura McHale

Wedi'i wirio gan: Linda Bonner

Cymeradwywyd: Lydia Lee

Llofnodwyd: 06 / 10 / 2020

Gwerthuswyd: v2 - Post Cons 06/10/2020

## Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad angenrheidiol

- Gwybodaeth arbenigol am egwyddorion codi arian drwy roddion sylweddol a thirlun codi arian allanol drwy gysylltiadau dyngarol, yn cynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol.
- Gwybodaeth am ddulliau cyfrannu sy'n effeithlon o ran treth
- Gwybodaeth am gydymffurfiaeth a Rheoliadau Codi Arian, a sut mae hyn yn berthnasol
- Gallu amlwg i rwydweithio a dylanwadu ar eraill, yn fewnol ac allanol, er mwyn enyn brwdfrydedd rhoddwyr posibl
- Gallu amlwg i adeiladu cysylltiadau'n gyflym gydag amrywiaeth eang o bobl
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau a dweud stori
- Gallu amlwg i egluro gwybodaeth gymhleth i'w chyflwyno i gynulleidfa allanol
- Credadwyedd personol o safon uchel a gallu amlwg i adeiladu cysylltiadau effeithiol mewnol ac allanol ar lefel uwch (e.e. ymddiriedolwyr, arweinwyr yn y diwydiant).
- Sylw rhagorol i fanylion.
- Sgiliau arwain amlwg sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau rhoddwyr.
- Sgiliau ymgynghori amlwg megis gwrando, meithrin ffydd a datblygu cysylltiadau o ansawdd dda gyda chydweithwyr mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol.
- Gallu cadw cofnodion yn wych er mwyn sicrhau y llunnir adroddiadau ariannol cywir i lywio cysylltiadau gyda rhoddwyr yn y dyfodol.
- Cefndir o gyflawni targedau codi arian heriol.
- Profiad amlwg o ddod o hyd i roddwyr sylweddol a sicrhau cyfraniadau mawr.
- Hanes amlwg o ofyn am gymorth gan roddwyr sylweddol, neu gefnogi eraill i ofyn.
- Profiad amlwg o adeiladu achos cymhellgar i gael cymorth i sicrhau cefnogaeth ar gyfer yr achos hwnnw.
- Profiad amlwg o addasu arddulliau cyfathrebu i ymateb i anghenion rhoddwr.